

Llywodraeth Cymru
Welsh Government


# Grŵp Cynghori Technegol

# Diweddariad Modelu Polisi

25 Mehefin 2021







OGL © Crown copyright 2021

# Diweddariad modelu polisi 25 Mehefin 2021

## Is-grŵp Modelu Polisi Grŵp Cyngor Technegol COVID-19 Llywodraeth Cymru

## 1. Crynodeb

- Mae'r papur hwn yn archwilio canlyniadau gwaith modelu polisi a gynhaliwyd gan Brifysgol Abertawe i ddeall sefyllfaoedd posibl o ran pandemig y coronafeirws yng Nghymru yn y dyfodol.

- O ran y sefyllfa yng nghanol mis Mehefin 2021, mae achosion a phositifedd yng Nghymru ar gynnydd, ac yn Lloegr mae twf cyflym wedi bod mewn achosion ers sawl wythnos. Felly, mae'n bosibl y bydd Cymru yn dilyn hynny ymhen rhai wythnosau. Mae'r cynnydd hwn wedi bod ar ei fwyaf ymysg pobl ifanc nad ydynt wedi'u brechu eto, ac sydd fel arfer â mwy o gysylltiadau cymdeithasol.

- Mae modelau epidemiolegol Prifysgol Abertawe wedi cynhyrchu amcangyfrifon o heintiau a niwed uniongyrchol gysylltiedig â COVID-19 hyd at ddiwedd mis Mawrth 2022.

- Yn gyffredinol, mae'r senarios a fodelir yn awgrymu bod nifer yr achosion, cleifion mewn ysbytai a marwolaethau yn debygol o gynyddu yn ystod mis Gorffennaf, wrth i gyfyngiadau gael eu llacio ymhellach, ac wrth i'r amrywiolyn Delta, sy'n fwy trosglwyddadwy, ddisodli'r amrywiolyn Alpha. Mae achosion yn debygol o gyrraedd uchafbwynt ddiwedd mis Gorffennaf 2021. Mae nifer y cleifion mewn ysbytai a marwolaethau yn debygol o gyrraedd uchafbwynt ym mis Awst 2021.

- Gellir dadlau bod lefel yr ansicrwydd yn awr yn fwy nag y mae wedi bod ar adegau eraill yn ystod y pandemig oherwydd na allwn fod yn sicr pryd y gallem ddechrau gweld effeithiau imiwnedd y boblogaeth ac effeithiau rhwydwaith bychain. Ni allwn ychwaith fod yn sicr i ba raddau y mae brechlynnau wedi torri'r cysylltiad rhwng heintiau a niwed pellach.

- Mae'n bosibl y bydd angen aros 2-3 wythnos arall cyn y bydd gennym syniad da o'r hyn i'w ddisgwyl o ran y trywydd yr ydym arno. Mae Lloegr rai wythnosau o flaen Cymru o ran cyfraddau achosion felly mae'n bosibl y bydd data ar gyfer Lloegr yn darparu gwybodaeth am gyfraddau cleifion mewn ysbytai a marwolaethau yn y dyfodol.

- Hyd yma yn 2021, mae'n debygol bod cyfyngiadau, ymatebion y cyhoedd a chyflwyno brechlynnau COVID-19 wedi cael effaith o ran lleihau trosglwyddiad y feirws a lleihau derbyniadau i ysbytai a marwolaethau.

- Mae tystiolaeth yn awgrymu bod yr amrywiolyn Delta 40-80% yn fwy trosglwyddadwy na'r amrywiolyn Alpha, sef y math mwyaf cyffredin blaenorol. O ganlyniad, mae'r modelau'n amcangyfrif cynnydd yn nifer yr achosion, derbyniadau i ysbytai a marwolaethau COVID-19 yn y dyfodol.

- Mae tystiolaeth yn dod i'r amlwg sy'n awgrymu bod brechlynnau'n lleihau trosglwyddiadau pellach a'u bod yn effeithiol iawn am atal clefyd difrifol, hyd yn oed yn achos yr amrywiolyn Delta. Fodd bynnag, mae ansicrwydd yn parhau ynghylch hyd effeithiolrwydd y brechlynnau sydd ar gael a chynlluniau ar gyfer pigiadau atgyfnerthu.

- Mae'n debygol y bydd brigiadau o achosion yn y dyfodol yn digwydd ymysg plant a phobl ifanc sydd â mwy o gysylltiadau ac sydd heb gael eu brechu. O ganlyniad, mae angen inni barhau i ystyried pa lefel sy'n dderbyniol o ran trosglwyddiad y feirws os yw brechlynnau'n cadw nifer y cleifion mewn ysbytai a marwolaethau'n isel.

- Dyma rai ffactorau allweddol sy'n achosi ansicrwydd: y lefel o gydymffurfio â'r cyfyngiadau cadw pellter cymdeithasol a chyfyngiadau eraill; effaith brechlynnau ar drosglwyddiad y feirws ac a ydynt yn parhau i fod yn effeithiol yn erbyn yr amrywiolyn Delta; effaith yr amrywiolyn Delta ac amrywiolion newydd posibl eraill; a'r posibilrwydd o imiwnedd yn gwanhau.

- Nid yw'r senarios sydd wedi'u modelu ar hyn o bryd yn cynnwys effaith drifft antigenig pellach nac imiwnedd sy'n gwanhau. Felly, maent yn debygol o fod yn ddibynadwy ar gyfer y misoedd nesaf, ond bydd angen modelu pellach cyn gaeaf 2021/22.

- Mae parhau i gadw gwyliadwriaeth ar heintiau mewn ysgolion, y cyflenwad o frechlynnau a'u heffeithiolrwydd, y nifer sy'n derbyn y cynnig o frechlyn, ac effaith a lledaeniad amrywiolion yn hanfodol. Bydd hyn yn helpu i ddeall y trywydd y mae Cymru arno yn y pandemig, a mireinio'r ffordd o lunio polisïau yn y dyfodol i ddelio â'r pandemig tra'n lleihau niwed ac anghydraddoldebau eraill o ran iechyd ac addysg a niwed ac anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol.

- Mae'r papur hwn hefyd yn cynnwys senarios newydd ar gyfer y senario waethaf sy'n rhesymol ei thybied (RWC) a'r senario fwyaf tebygol (MLS). Bydd y rhain yn helpu'r gwaith cynllunio yng Nghymru.